OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 309

## Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 3, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) 2017

**Y diwrnod penodedig**

**2.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 3 Ebrill 2017—

(a) Rhan 2 (sy'n cynnwys adrannau 65 i 66 ac sy'n ymwneud â'r trosolwg o Rannau 3 i 8 a'u dehongli);

(b) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, Rhan 3 (sy'n cynnwys adrannau 67 i 78 ac sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol Cymru) ac Atodlen 2(**1**);

(c) Rhan 4 (sy'n cynnwys adrannau 79 i 111 ac sy'n ymwneud â gweithwyr gofal cymdeithasol);

(d) Rhan 5 (sy'n cynnwys adrannau 112 i 116 ac sy'n ymwneud â gweithwyr gofal cymdeithasol, safonau ymddygiad, addysg etc.);

(e) Rhan 6 (sy'n cynnwys adrannau 117 i 164 ac sy'n ymwneud ag addasrwydd gweithwyr gofal cymdeithasol i ymarfer), ac eithrio is-adran (5) o adran 160 (pŵer i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu);

(f) Rhan 7 (sy'n cynnwys adrannau 165 i 173 ac sy'n ymwneud â phersonau anghofrestredig a gorchmynion sy'n gwahardd gwaith mewn gofal cymdeithasol);

(g) Rhan 8 (sy'n cynnwys adrannau 174 i 175 ac sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol Cymru a'r ddyletswydd i sefydlu paneli);

(h) Rhan 9 (sy'n cynnwys adrannau 176 i 182 ac sy'n ymwneud â chydweithredu a chydweithio gan gyrff rheoleiddiol);

(i) Rhan 10 (sy'n cynnwys adrannau 183 i 184 ac sy'n ymwneud â darpariaethau amrywiol a chyffredinol);

(j) adran 185 ac Atodlen 3 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) i'r graddau y maent yn ymwneud â Rhan 2 o Atodlen 3 (Gofal Cymdeithasol Cymru).

(**1**) Mae Atodlen 2 (sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch Gofal Cymdeithasol Cymru) yn cael ei chyflwyno gan adran 67(4) o'r Ddeddf.